

Gwybodaeth i ddysgwyr a thiwtoriaid

Ydych chi'n dysgu Cymraeg? Mae GPC yn gallu cynnig pob math o help.

Geiriadur Cymraeg-Cymraeg yw GPC, ond ceir cyfystyron Saesneg hefyd. Mae'n ddelfrydol i gael hyd i ystyr geiriau neu ymadroddion newydd y byddwch yn dod ar eu traws yn eich gwaith darllen neu wrth sgwrsio y tu allan i'r dosbarth, ac mae'n dod o hyd i ffurfiau treigledig hefyd!

Beth yw'r gair 'nefnydd' yma, sydd ddim yn y geiriaduron print?

Os teipiwch air treigledig fel hwn yn y bocs chwilio, bydd y Geiriadur yn eich cyfeirio at y ffurf heb ei threiglo (mewn teip glas trwm), sef 'defnydd' yn yr achos hwn.

Tip: mae angen sicrhau eich bod wedi dewis CYMRAEG yn iaith chwilio.

CYMRAEG DIFFINIADAU SAESNEG

nefnydd

1 - 1 o 1

nefnydd → defnydd

Beth yw ystyr 'wrth fy modd'?

Teipiwch yr ymadrodd yn y bocs chwilio. Os yw'r ymadrodd yn y Geiriadur, bydd yn ymddangos fel dolen las a bydd clicio/tapio ar hon yn mynd â chi'n syth i'r cyfuniad perthnasol, o dan y gair 'bodd' yn yr achos hwn.

CYMRAEG DIFFINIADAU SAESNEG GAIR BLAENOROL YN ÔL CUDDIO DANGOS ARGRAFFIA

wrth fy modd

bodd

1 - 1 o 1

• wrth fodd, wrth fy modd, &c.:
(i) to the liking of, according to the wish of, acceptable or

wrth fy modd, &c. → bodd

Beth am acenion?

Does dim angen poeni amdanynt! Teipiwch y gair heb yr acen, a bydd y Geiriadur yn dod o hyd iddo. (Ond mae'r cyplysnod ('-') yn arwyddocaol.)

CYMRAEG DIFFINIADAU SAESNEG

pel-droed

1 - 4 o 4

pêl-droed, pêl-draed

Beth os oes mwy nag un posibilrwydd?

Os gallai'r ffurf rydych chi wedi ei theipio gynrychioli mwy nag un gair, rhoddir dewis i chi.

Gallwch weld manylion am y gwahanol eiriau drwy glicio/dapio arnynt, neu gallwch 'sweipio' drwy'r canlyniadau yn yr ap.

CYMRAEG DIFFINIADAU SAESNEG

dwr

1 - 20 o 262

dŵr, dwfr
dwr → twr
dŵr → tŵr

Mae GPC Ar Lein ar gael am ddim dros y We (<http://gpc.cymru>) ac mae modd lawrlwytho holl ddata'r Geiriadur i'ch ffôn neu dabled (Apple neu Android) fel nad oes rhaid cysylltu â'r Rhyngrwyd i'w ddefnyddio.

Gellir lawrlwytho'r ap am ddim o App Store Apple a Google Play (gw. isod).

Ar ôl i chi lawrlwytho'r ap gallwch lawrlwytho'r data hefyd: pwyswch ar **GPC** a dewiswch 'Gosodiadau', 'Cronfa ddata' a 'Cronfa ddata leol (lawn)', a dilyn y cyfarwyddiadau.

Mae popeth yn cymryd rhyw 200MB ond bydd modd ei ddefnyddio unrhyw bryd.

Mae'r ap hefyd yn cynnwys cwpl o gemau i'ch helpu i adolygu geiriau rydych wedi chwilio amdanynt yn ddiweddar ('Chwiliadau diweddaraf' dan 'Geiriau ar gyfer y gemau').

Problemau neu gwestiynau? Ewch i <http://www.geiriadur.ac.uk> neu anfonwch neges at gpc@geiriadur.ac.uk

Mae'r ap yn gyflym ac yn gyfleus.



GPC CYM Q

Gosodiadau

Iaith rhyngwyneb

☒ Cymraeg

☐ Saesneg

Geiriau ar gyfer y gemau

☒ Pob gair

☐ Chwiliadau diweddaraf

Allosod maint y testun

Cronfa ddata

☐ Cronfa ddata o bell

☐ Cronfa ddata leol (sylfaenol)

☒ Cronfa ddata leol (lawn)

Rheoli cronfeydd data lleol

Information for Welsh learners and tutors


Are you learning Welsh? GPC can help in more ways than one.

GPC is a Welsh-Welsh dictionary, but English synonyms are also given so it is ideal for looking up unfamiliar words or phrases you may come across in your reading or conversation outside the classroom. It can find mutated forms too!

What's this word 'nefnydd', which I can't find in any print dictionary?


If you type a mutated word like this into the search box, the Dictionary will direct you to the unmutated form (in bold), i.e. 'defnydd' in this case.

Tip: Make sure that **WELSH** or **CYMRAEG** is selected as the search language.



What does 'wrth fy modd' mean?

Type the phrase into the search box. If it is in the Dictionary it will appear in blue as shown, and tapping on this link will take you directly to where the phrase is listed among the 'Collocations' (set phrases), under the headword 'bodd' in this instance.



What about accents?


There's no need to worry about them! Just type the letter without an accent and the Dictionary should still find the relevant word. (Hyphens, however, are significant.)



What if there is more than one possibility?

If the letters you have typed could represent more than one word, you will be shown the different options.

You can see the definitions of the various words by clicking or tapping on them, or you can 'swipe' through the results in the app.



GPC Online is available free of charge on the Internet (<http://gpc.cymru>) and you can download all the data onto your phone or tablet (Apple or Android) so that you do not need an Internet connection to use it.



The app can be downloaded free of charge from the Apple App Store and Google Play (see below).

Once you have downloaded the app you can also download the data: tap **GPC** and select 'Settings',


'Database' and 'Local database (full)', and follow the instructions.

In total it takes up about 200MB and can be used at any time.

The app also contains a couple of games to help you revise words you have looked up recently (select 'Latest lookups' under 'Words for games').

Any problems or questions? Go to <http://www.geiriadur.ac.uk> or you can contact us at gpc@geiriadur.ac.uk

The app is quick and convenient.



Beth am genedl gair?

Bydd y Geiriadur yn gallu dweud wrthoch a yw gair yn enw gwrywaidd (eg.) neu’n enw benywaidd (eb.). Mae rhai geiriau yn gallu bod yn fenywaidd ac yn wrywaidd (eg.b. neu eb.g.) gyda’r genedl fwyaf cyffredin yn cael ei rhestru’n gyntaf.

CYMRAG

DIFFINIADAU SAESNEG

GAIR BLAENOROL

YN ÔL

CUDDIO

DANGOS

ARGRAFF

clust

clust

1 - 20 o 72

clust

[H. Wydd. *cluas*: < Clt. **kloustā*, cf. H. Norseg *hlust* ‘ear’ o’r gw. *eb.g.* ll. *clustiau*.

clust

clust aradr → clust

Beth am ffurfiau lluosog?

Os ydych chi eisiau gwybod beth yw ffurf lluosog gair, dangosir hyn ar ôl y byrfodd ‘ll.’ (‘lluosog’). Efallai y bydd nifer o ffurfiau lluosog yn cael eu dangos, ond fel arfer y ffurf fwyaf cyffredin yn yr iaith gyfoes a roddir yn gyntaf. Os yw’r ffurf lluosog mor wahanol i’r ffurf unigol fel y byddai’n anodd ei hadnabod, y tebyg yw bydd croesgyfeiriad yn y Geiriadur, e.e.:

cath

[H. Grn. *kat*, gl. *cattus vel murilegus*, Llyd. C. *caz*, cf. Llad. *cattus, catta*]
eb.g. ll. *cathod, cathau*.

CYMRAG

DIFFINIADAU SAESNEG

GAIR BLAENOROL

YN ÔL

CUDDIO

DANGOS

ARGRAFF

cwn

cŵn

1 - 20 o 118

cŵn, gw. ci.

cŵn

Gallwch ddod o hyd i ffurf unigol ar enw lluosog arferol drwy ddechrau teipio llythrennau cyntaf y gair gan edrych ar y geiriau sy’n cael eu cynnig. Mae hyn hefyd yn wir fel arfer am ferfau gyda gwahanol derfyniadau.

Tip: Defnyddir llawer o fyrfoddau yn y Geiriadur (gan gynnwys rhai llyfryddol yn y dyfyniadau) ond os byddwch yn eu tapio (neu’n symud y llygoden drostynt yn **GPC Ar Lein**) bydd y gair neu’r ymadrodd llawn yn ymddangos.

Help! Mae’n edrych mor gymhleth!

Y peth cyntaf i edrych arno yw’r diffiniad Cymraeg, gyda’r cyfystyron Saesneg oddi tano. Weithiau ceir nifer o adrannau wedi eu labelu gyda rhifau neu lythrennau (1(a), 1(b), 2, ayb.), i egluro holl ystyron gair.

Tip: Am gyfarwyddiadau llawn, gweler y botwm **CYMORTH / HELP** yn y gornel dde ar frig y sgrin. Yn ymyl hwn mae botwm sy’n eich galluogi i newid iaith y rhyngwyneb (‘interface’) – nid yw hyn yn effeithio ar yr iaith chwilio.

Adolygu geirfa

Mae ap y Geiriadur yn cynnig dwy gêm sy’n seiliedig ar gynnwys y Geiriadur: gêm **Geiriau cudd** a gêm **Anagramau**. Mae modd cyfyngu’r ddwy gêm i’r geiriau Cymraeg rydych wedi chwilio amdanynt ers agor yr ap a gall hyn fod yn ffordd dda o adolygu geirfa newydd. Hynny yw, os byddwch yn gwneud gwaith darllen y tu allan i’r dosbarth ac yn defnyddio’r ap i chwilio am eiriau anghyfarwydd, gallwch ddefnyddio’r gemau i’w hadolygu wedyn.

Pwyswch ar **GPC** (sawl gwaith), yna **Gosodiadau / Geiriau ar gyfer y gemau**. Mae pwyso ar **Clw** yn dangos y diffiniad Cymraeg neu’r cyfystyr Saesneg gan ddibynnu ar iaith y rhyngwyneb.

Anagramau: rhaid symud y teils drwy eu llusgo i’r drefn gywir.

Geiriau cudd: sylwer mai dim ond un gair sydd wedi’i guddio. Mae’n gallu rhedeg i unrhyw gyfeiriad. Rhaid tapio’r teils cywir i ddatgelu’r gair.

GPC

CYM

4/14

ap³ (2016)

ap³

[bnth. S. *app*, talf. o ‘*application*’]
eg. ll. *apiau, aps*.

Cyfrifiadura Rhaglen gyfrifiadurol a ddefnyddir yn bennaf ar ffonau symudol a chyfrifiaduron tabled:
app (in computing).

2010 Y Cymro 9 Gorffennaf, 11, cael blas o beth o gynnwys y Rhaglen hefyd, trwy brynu’r ‘*app*’ cyntaf ar gyfer unrhyw ŵyl Gymraeg – yr iSteddfod.

2011 Y Cymro 29 Gorffennaf, 14, cydweithio ... i gynhyrchu *ap* Rapsgaliwn a fydd yn barod i’w lawrlwytho ym mis Awst.

2013 Y Cymro 19 Ebrill, 6, bydd datblygu *apiau* dwyieithog yn ddiwedd gwych i’r bartneriaeth allweddol yma.

2013 Y Cymro 31 Mai, 16, Mae’r ail gyfres o Dwylo’r Enfys yn cael ei ffilmio ar hyn o bryd, ac mae cynlluniau i greu *aps* i blant ag anghenion arbennig i gyd-fynd â’r gyfres.

ap¹

ap²

ap³

aparant

apart

© Hawlfraint Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2017

Apiau GPC

Mae ap iOS (ar gyfer iPhone, iPad, ac iPod) ac ap Android i’w cael am ddim.

Lawrlwythwch y data hefyd er mwyn gallu defnyddio’r ap heb gysylltiad â’r We.

GPC

CYM

Gair cudd

Mae’r ar lettrau

Tywyllwch, düwch, gwyll, mwrllwch, colofn neu hefyd yn ffig.

ir.

Clw

Yr ateb

Gair newydd

T

I

U

Y

A

I

I

B

Y

G

E

W

H

M

W

L

W

E

O

Ng

M

A

M

T

Y

Y

D

U

A

R

S

W

LI

Y

A

Ng

E

E

L

Ng

N

I

N

Y

G

D

L

L

I

GPC

CYM

Anagram

Aildrefn

Cwrtais, moesgar, boneddigaidd, rhadlon, cymwynasgar, difrif(ol), pwylllog, sad

r Cymraeg.

Gair newydd

F

I

S

L

I

What about the gender of nouns?

The Dictionary can tell you whether a particular noun is masculine ('enw gwrywaidd', eg.) or feminine ('enw benywaidd', eb.). If a word can be either masculine or feminine the more common gender is listed first (eg.b. or eb.g.).

WELSHENGLISH DEFINITIONS

PREVIOUS WORDBACKHIDE

SHOWFIRST

clust

1 - 20 of 72

clust

clust aradr → clust

clust

[H. Wydd. cluas: < Clt. *kloustā, cf. H. Norseghlust 'ear' o'r gw eb.g. ll. clustiau.

What about plural forms?

If you want to know what the plural form of a particular word is, this is shown after the abbreviation 'll.' (for 'lluosog'). If more than one plural form is shown, the one given first will be the one that is most common in the modern language.

cath

[H. Grn. kat, gl. cattus vel murilegus, Llyd. C. caz, cf. Llad. cattus, catta] eb.g. ll. cathod, cathau.

If the plural form is so different from the singular form that it would be hard to recognize, it will probably be given as a cross-reference, e.g.:

WELSHENGLISH DEFINITIONS

PREVIOUS WORDBACKHIDE

SHOW

cŵn

1 - 20 of 118

cŵn

cŵn, gw. ci.

You can find the singular form of a normal plural noun by beginning to type the word and looking at the words suggested in the drop-down list. This also usually works for verbs with different endings.

Tip: The Dictionary uses many abbreviations (including bibliographical references in the quotations) but if you tap them (or hover over them with the cursor in GPC Online) the full word or phrase will appear.

Help! It looks so complicated!

The first thing to look at is the definition, given in Welsh first with English below. Sometimes there will be more than one section, labelled with numerals or letters (1(a), 1(b), 2, etc.), to explain different meanings of the same word.

Tip: For full instructions, see the CYMORTH / HELP button at the top of the screen. Next to this is a button that allows you to change the interface language – this does not affect the search language.

Revising vocabulary

The app offers two games based on the Dictionary's content: Hidden words and Anagrams. Both games can be restricted to words searched since opening the app. This means you can use the app to test yourself on words you have looked up recently, which might help, for example, with revising vocabulary from your reading outside the classroom.

Tap GPC (several times), then Settings / Words for the games. Tapping Clue shows the definition in Welsh or English, depending on the interface language.

Anagrams: tiles must be moved by dragging them into the correct order. Hidden words: note that there is only one hidden word. It can run in any direction. The correct tiles must be tapped to reveal the word.

GPCCYM

4/14ap³ (2016)

ap³

[bnth. S. app, talf. o 'application'] eg. ll. apiau, aps.

Cyfrifiadura Rhaglen gyfrifiadurol a ddefnyddir yn bennaf ar ffonau symudol a chyfrifiaduron tabled:

app (in computing).

2010 Y Cymro 9 Gorffennaf, 11, cael blas o beth o gynnwys y Rhaglen hefyd, trwy brynu'r 'app' cyntaf ar gyfer unrhyw ŵyl Gymraeg – yr iSteddfod.

2011 Y Cymro 29 Gorffennaf, 14, cydweithio ... i gynhyrchu ap Rapsgaliwn a fydd yn barod i'w lawrlwytho ym mis Awst.

2013 Y Cymro 19 Ebrill, 6, bydd datblygu apiau dwyieithog yn ddiwedd gwych i'r bartneriaeth allweddol yma.

2013 Y Cymro 31 Mai, 16, Mae'r ail gyfres o Dwylo'r Enfys yn cael ei ffilmio ar hyn o bryd, ac mae cynlluniau i greu aps i blant ag anghenion arbennig i gyd-fynd â'r gyfres.

ap¹ap²ap³aparantap⁴

© Hawlfraint Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, 2017

GPC Apps

Free apps are available for iOS (for iPhone, iPad, and iPod) and Android. You can download all the data too so you don't need a Web connection.

GPCWEL

Hidden word

The word adjacent island is a row, column or diagonal. Select the letters or the word.

Clue

Answer

New word

R	O	A	N	Dd	L	Rh
Dd	G	Dd	A	B	A	Dd
H	D	Ng	Ch	G	O	R
F	F	S	Y	S	O	Th
Y	E	N	N	A	A	U
F	Y	G	R	Y	L	N
S	I	G	O	C	W	Ch

GPCWEL

Anagram

Reorder the tiles to form a word.

place or path for walking, walk, walkway, path, parade, promenade, terrace, avenue, boulevard, drive; hall, corridor, passage, gangway; covered walkway, gallery, mall, arcade; balcony; aisle, alley

New word

A O D F Rh

Cewch neges wrth lwyddo. Yn y ddwy gêm mae **Gair newydd** yn ailddechrau'r gêm gyda gair gwahanol. Os oes angen gweld cofnod y gair ar unrhyw adeg, gellir pwyso ar **Yr ateb**. Ar ôl gweld y cofnod, gallwch bwyso ar y saeth sy'n pwyntio i'r chwith i fynd yn ôl i'r gêm.

Chwilio Saesneg > Cymraeg

Yn gyntaf, gair o rybudd. Nid hwn yw'r geiriadur gorau ar gyfer cael hyd yn gyflym i air Cymraeg sy'n cyfateb i air Saesneg – y tebyg yw y bydd yn rhoi gormod o ddewis i chi, a rhai o'r ffurfiau heb fod yn addas ar gyfer sgwrs bob dydd! Mae GPC yn eiriadur hanesyddol sy'n cynnwys geiriau o bob cyfnod o'r seithfed ganrif hyd heddiw, ynghyd â geiriau sy'n rhan o dafodiaith ardaloedd penodol. Er enghraifft, os ydych am gyfeithu 'horse', y gair gorau fel arfer fyddai 'ceffyl', ond os chwiliwch am 'horse' yn GPC byddwch yn cael geiriau canoloesol fel 'cafall', 'eddystr' a 'gorwyddfarch' yn ogystal â 'ponffil', gair sy'n perthyn i dafodiaith Sir Fôn.

CYMRAEGDIFFINIADAU SAESNEGGAIR BLAENOROLYN ÔLCUDDIODANGOSARGRAFF

horse

cafall

1 - 10 o 332

horse, steed → **cafall**

horse, nag, hobby → **ceffyl**

horse, steed, colt → **eddystr**

(war-)horse, steed → **gorwyddfarch**

horse; also derog. of a man → **hors**

horse, stand → **hors**

horse, stallion, war-horse, steed → **march**

horse, also fig. → **planc²**

horse, pony (derog.) → **ponffil**

horse, steed, warhorse; horses → **seri¹**

cafall

[bnth. Llad. *cāballus*; digwydd *Cafall* fe. e. p., sef enw ci Arthwr *Hist Brit* 217 hefyd fel enw march, *RM* 111, 125, 135, 138

eg.

March:

- **horse, steed.**

13g. *C* 934-5. Kyuaruuan amcavall. kelein aruiar ar wall.

13g. *A* 3422-351. oid girth oed cuall ar geuin e gauall.

Fodd bynnag, os oes gennych ddiddordeb yn hanes yr iaith neu os ydych am weld faint o gyfystyron sydd ar gael ar gyfer gair Saesneg penodol, gallwch gael hwyl wrth chwilio yn yr ochr Saesneg.

Tip: Bydd y dyfyniadau enghreifftiol yn dangos pa mor hen yw'r gair, ond mae angen gofal am fod arferion a dulliau ysgrifennu GPC wedi newid dros amser. Erbyn heddiw rydym yn dyfynnu enghreifftiau diweddar, os ydynt ar gael. Ond yn y gorffennol yr arfer oedd peidio â dyfynnu enghreifftiau diweddarach na'r ddeunawfed ganrif. (Gallwch weld dyddiad cyhoeddi pob erthygl i'r dde o'r dangosair.)

Gallwch ddangos y dyfyniadau fesul adran drwy bwyso ar y botwm + ar y dde, a'u cuddio drwy bwyso ar y botwm -. Drwy bwyso ar y botwm + ar frig y sgrin, gallwch ddangos yr holl ddyfyniadau yn y cofnod. (Yn **GPC Ar Lein** dangosir y dyfyniadau fel arfer ond gallwch ddewis eu cuddio.)




Cyfeillion y Geiriadur

Os hoffech gefnogi'r Geiriadur a dysgu mwy am sut mae'n cael ei baratoi, beth am ymuno â Chyfeillion y Geiriadur?

Gellir ymuno ar lein drwy ymweld â:
www.geiriadur.ac.uk/cyfeillion-y-geiriadur/

Gellir gweld 'Gair y Dydd', gwneud sylwadau, neu ofyn cwestiynau yn:
www.facebook.com/geiriadurGPC
www.twitter.com/geiriadur
e-bost: gpc@geiriadur.ac.uk

Ystyir *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn gyffredinol yn safon ar gyfer sillafu geiriau, ffurfiau lluosog, cenedl enwau, ac yn y blaen, oherwydd bod yr holl wybodaeth yn y Geiriadur yn seiliedig ar gorpws o enghreifftiau go iawn.



Mae GPC yn eiriadur sylweddol:

89,217	o gofnodion
126,920	o ddangoseiriau
401,873	o ddyfyniadau enghreifftiol
34,589	o gyfuniadau
tua 9 miliwn	o eiriau yn gyfan gwbl
dros 62,000	o groesgyfeiriadau

Sawl gwaith y flwyddyn bydd cannoedd o gofnodion newydd a diweddariadau o hen gofnodion yn cael eu cyhoeddi.

Os oes gennych gwestiynau neu broblemau, anfonwch at:
gpc@geiriadur.ac.uk

Mae llawer o wybodaeth ychwanegol am GPC ar wefan y Geiriadur:

www.geiriadur.ac.uk

neu sganiwch y cod yma:



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Searching English > Welsh

WELSH
ENGLISH DEFINITIONS
PREVIOUS WORD
BACK
HIDE
SHOW

horse

cafall

1 - 10 of 332

horse, steed → **cafall**

horse, nag, hobby → **ceffyl**

horse, steed, colt → **eddystr**

(war-)horse, steed → **gorwyddfarch**

horse; also derog. of a man → **hors**

horse, stand → **hors**

horse, stallion, war-horse, steed → **march**

horse, also fig. → **planc²**

horse, pony (derog.) → **ponffil**

cafall

[bnth. Llad. *cābāllus*; digwydd *Cafall* fe. e.p., sef enw ci Arthwr *Brit* 217 hefyd fel enw march, *RM* 111, 125, 135, 138, 251]

eg.

March:

- horse, steed.*

13g. *C* 93₄₋₅. Kyuaruuan amcavall. kelein aruiar ar wall.

13g. *A* 34₂₂₋₃₅¹. oid girth oed cuall ar geuin e *gauall*.

Tip: The quotations will show you how old a particular word is, but care is needed when interpreting them since the Dictionary's practice has changed over time. Recent entries provide recent quotations, where available, but in the past the custom was to quote examples only up to the end of the eighteenth century. (The publication date of entries is shown near the upper corner of the screen to the right of the headword.)

You can join online by visiting:
www.welsh-dictionary.ac.uk/friends-of-the-dictionary/

GEIRIADUR
PRIFYSGOL
CYMRU

A DICTIONARY OF THE
WELSH LANGUAGE

I
A-FFYSUR

GEIRIADUR
PRIFYSGOL
CYMRU

A DICTIONARY OF THE
WELSH LANGUAGE

II
C-LLYYS

GEIRIADUR
PRIFYSGOL
CYMRU

A DICTIONARY OF THE
WELSH LANGUAGE

III
M-RHYWYR

GEIRIADUR
PRIFYSGOL
CYMRU

A DICTIONARY OF THE
WELSH LANGUAGE

IV
S-ZWINGLIADD



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government